

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MIS TACHWEDD 2018

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR
CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. ADRODDIAD CADEIRYDD - SICRHAD ASESIAID RISG

Derbyn yr adroddiad sicrhad yn unol â rheoliadau ariannol y Cyngor.

**5. CANSLO CYFARFOD MIS IONAWR 2019 Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION
CYFFREDINOL**

Cydnabod, ar ôl ymgynghori gyda'r Cadeirydd, bod cyfarfod y pwyllgor a drefnwyd i'w gynnal ar ddydd Mercher 2il Ionawr 2019, wedi ei ganslo.

6. EITEM GAN AELOD: DIGWYDDIAD ARFAETHEDIG 'GWYRDD' / 'ECO'

Y Cynghorydd A. S. Johnson – gofyn am gefnogaeth yr aelodau i ystyried digwyddiad o'r math uchod i arddangos cwmnïau Gogledd Cymru gydag enw am fod yn 'wyrdd' neu 'ecolegol'.

7. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

8. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

9. DRPARU GWASANAETH DIGWYDDIADAU A CHYHOEDDUSRWYDD

Penderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

10. MATERION T.G. / ADNEWYDDU CYFARPAR

Penderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

11. CYLLIDEB FLYNYDDOL / CYNLLUN ARIANNOL PUM MLYNEDD

Ystyried, newid a chymeradwyo argymhellion Cyllideb Flynyddol 2019/20 (copi'n amgaeëdig) y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol i'w hargymell i gyfarfod y Cyngor i'w gynnal ar 19eg Rhagfyr 2018, ac i argymell praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2019/2020.

[Atgoffir yr Aelodau y medrent, ar unrhyw adeg cyn y cyfarfod, ofyn am wybodaeth bellach fanylach ar y ffigurau neu faterion yn yr adroddiad uchod, neu drafod unrhyw feysydd o bryder gyda Chlerc y Dref, y Swyddog Cyllid neu Gadeiryddion y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol/Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol]

12. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.